# SIR DDINBYCH HANESYDDOL

Ansawdd Quality Assured

Darganfod tŷ tref ffrâm bren bob siâp, profiad unigryw o garchar Fictoraidd, trysorfa o fywyd glan y môr, a chartref Merched Llangollen...



Carchar Rhuthun | Nantclwyd y Dre | Plas Newydd | Amgueddfa'r Rhyl

Gwasanaeth **Treftadaeth** Sir Ddinbych
Denbighshire **Heritage** Service

# NANTCLWYD Y DRE

## Tŷ a Gerddi Hanesyddol



Rhowch dinc ar yr hen biano, dewch yn gogydd o'r Oes Fictoraidd, gwisgwch wigoedd cain o'r cyfnod ac ewch am dro yn y gerddi tawel gyda chwpan te yn eich llaw! Yn Nantclwyd y Dre fe'ch gwahoddir i wneud eich hun yn gartrefol mewn hanes a chael profiad o'r tŷ tref ffrâm bren blith draphlith hwn, yn union fel y gwnaeth y teuluoedd oedd yn byw yma.

O'r canoloesoedd i'r cyfnod modern, ac o'r parlwr i gemau lawnt, cewch ddarganfod bywyd teuluol yr oes a fu a dysgu am yr ychydig drigolion sy'n dal i fyw yno!






**Nantclwyd y Dre, Stryd y Castell, Rhuthun, LL15 1DP**

Edrychwch ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol i weld oriau agor diweddaraf

www.sirddinbych.gov.uk/nantclwyd-y-dre-rhuthun

Nantclwyd y Dre | @nantclwydydre

heritage@denbighshire.gov.uk | 01824 709822




- Parcio talu ac arddangos gerllaw (Dog Ln, LL15 1AN)
- Cyflwyniadau amlgyfrwng
- Mynediad i gadeiriau olwyn
- Gweithgareddau plant
- Toiledau | toiled anabl | cyfleuster newid babi
- Taith sain wedi'i chynnwys gyda phris mynediad
- Mae tocynnau gardd yn unig ar gael
- Croesewir cŵn
- Siop anrhegion gyda chynnyrch lleol a gwaith celf

# PLAS NEWYDD

## Cartref 'Merched Llangollen'



Bu i'r Foneddiges Eleanor Butler a Miss Sarah Ponsonby ddal dychymyg y gymdeithas Raglywiaeth wrth iddyn nhw redeg ymaith a sefydlu eu cartref gyda'i gilydd yng Nghymru.



Ewch i ymweld â'u bwthyn Gothig anhygoel, sy'n llawn cerfiadau derw cywrain a gwydr lliw alldaflol, i ddarganfod eu hanes. Cewch ddysgu am eu hymwelwyr enwog, crwydro hoff daith gerdded y merched ar lan yr afon, a mwynhau cacen neu ginio cartref yn yr ystafelloedd te.



**Plas Newydd, Heol y Bryn, Llangollen, LL20 8AW**

Edrychwch ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol i weld oriau agor diweddaraf

www.sirddinbych.gov.uk/plas-newydd-llangollen

Plas Newydd | @plasnewyddllan

plasnewydd@denbighshire.gov.uk | 01978 862834




- Parcio am ddim (cyfyngedig)
- Yr Ystafell De
- Gweithgareddau plant
- Toiledau | toiled anabl | cyfleuster newid babi
- Taith sain wedi'i chynnwys gyda phris mynediad
- Mynediad am ddim i'r gerddi
- Croesewir cŵn
- Siop anrhegion gyda chynnyrch lleol a gwaith celf

# CARCHAR RHUTHUN

## Profiad unigryw o garchar Fictoraidd




Dewch i ddatgloi byd trosedd a chosb hanesyddol yn yr hen garchar trawiadol hwn. Cewch archwilio'r celloedd, profi'r awyrgylch cyfareddol, a darganfod straeon am garcharorion drwg-enwog fel yr Houdini Cymreig

O'r hyn y bydden nhw wedi'i fwyta a sut y bydden nhw wedi gweithio, i'r cosbau y gwnaethant eu dioddef. Dewch i'ch rhyfeddu at fywyd dyddiol o dan y 'system fud' ar gyfer y carcharorion a gadwyd yno.





**Carchar Rhuthun, Stryd Clwyd, LL15 1HP**

Edrychwch ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol i weld oriau agor diweddaraf

Ruthin Gaol | @ruthin gaol

www.sirddinbych.gov.uk/carchar-rhuthun

gaol.reception@denbighshire.gov.uk | 01824 708281




- Parcio talu ac arddangos gerllaw (Iard Crispin, LL15 1HL)
- Mae lle parcio i bobl anabl ar y safle (cyfyngedig)
- Gweithgareddau plant
- Toiledau | toiled anabl | cyfleuster newid babi
- Taith sain wedi'i chynnwys gyda phris mynediad
- Mae standiau beiciau ar y safle
- Croesewir cŵn
- Siop anrhegion

# AMGUEDDFA'R RHYL

## Trysor o fywyd glan y môr




Yn ei hanterth Edwardaidd a Fictoraidd, roedd Y Rhyl yn gyrchfan wyliau ffasiynol a chain, gyda phier prysur. Heidiodd ymwelwyr o bell ac agos i fwynhau arfordir godidog Cymru, awyr iach y môr a dyddiau cynnes yr haf.



Cewch ail-fyw gorffennol prysur y dref wrth i chi gerdded i lawr 'pier' Edwardaidd, sbecian ar giosgau hen ffasiwn a darganfod mwy am y personoliaethau a luniodd y dref glan môr hon, o ymdrochwyr Rhufeinig i arloeswyr sinema cynnar.




**Stryd yr Eglwys, Y Rhyl, LL18 3AA (y tu mewn i Lyfrgell Y Rhyl)**

Gweler amseroedd agor Llyfrgell a Siop Un Alwad y Rhyl i gael mynediad i'r amgueddfa

Denbighshire Collections

www.denbighshire.gov.uk/amgueddfar-rhyl

heritage@denbighshire.gov.uk | 01745 353 814




- Maes parcio talu ac arddangos gerllaw (Canolfan y Rhosyn Gwyn)
- Parcio i bobl anabl ym maes parcio llyfrgell y Rhyl (llefydd parcio i bobl anabl yn unig)
- Toiledau | toiled anabl | cyfleuster newid babi
- FREE Mynediad am ddim
- Arteffactau ac arddangosfeydd casgliad Sir Ddinbych
- Cŵn cymorth yn unig

# DEWCH I FWYNHAU DIWRNOD ALLAN HANESYDDOL BYTHGOFIADWY




Mwynhewch olygfeydd godidog o'r Dirwedd Genedlaethol o'ch cwmpas wrth i chi deithio drwy'r sir, a pheidiwch â methu Bwlch yr Oernant syfrdanol!

Tripadvisor ★★★★★

CYNLLUNIO EICH YMWELIAD AR

WWW.SIRDDINBYCH.GOV.UK/TREFTADAETH

Gwasanaeth **Treftadaeth** Sir Ddinbych
Denbighshire **Heritage** Service

Amgueddfa Achrededig | Accredited Museum · Dog Friendly | Yn Addas i Gŵn · We've signed up! Kids in Museums Manifesto